Rhif: WG31097

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

**Dyddiad cyhoeddi: 20 Chwefror 2017**
**Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Ebrill 2017**

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cael barn pobl ar gynigion i wneud gwelliannau i 'Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010'. |
| **Sut i ymateb** | Gellir anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi ffurflen ar-lein, neu fel arall, gellir e-bostio/postio ymatebion i'r cyfeiriad isod erbyn 16 Ebrill 2017. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cangen Polisi Trethi Lleol<br><br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:LGF1Consultations@wales.gsi.gov.uk |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon |

eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.